# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Mabon Ap Gwynfor, Meirick Davies, Martyn Holland, Alan James, Gwyneth Kensler, Arwel Roberts, Peter Scott, Glenn Swingler,, Rhys Thomas, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid/ Swyddog A. 151 (RW), a Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG); Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (AP); Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol (GD) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau gysylltiad personol yn yr eitemau a ganlyn -

Cynghorydd Meirick Davies – Eitem 6 ar y Rhaglen fel Cadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru ac Eitem 8 ar y Rhaglen gan ei fod yn rhentu garej gan y cyngor

Y Cynghorydd Glenn Swingler – Eitem 5 ar y Rhaglen fel Gweithiwr Cefnogi ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ac Eitem 8 ar y Rhaglen gan ei fod yn gynghorydd ar Gyngor Tref Dinbych

Y Cynghorydd Rhys Thomas – Eitem 8 ar y Rhaglen gan ei fod yn gynghorydd ar Gyngor Tref Dinbych

## 3 MATERION BRYS

Dim materion brys wedi eu codi ac angen penderfyniad arnynt.

Roedd cwestiwn wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Rhys Thomas y cytunodd yr Arweinydd y gellir delio ag o dan faterion brys.

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas y cwestiwn canlynol:

"Yn sgil y newyddion fod Hitachi wedi atal eu gwaith yn y Wylfa Newydd oherwydd costau cynyddol, a yw'r Cabinet wedi ystyried goblygiadau'r newyddion ar Gynnig Twf Gogledd Cymru gan ei fod yn dibynnu'n drwm, fel y mae, ar ddau brosiect mawr arall sy'n gysylltiedig â'r diwydiant niwclear?"

Ymatebodd yr Arweinydd i'r cwestiwn drwy nodi, gan fod y cyhoeddiad ond newydd gael ei wneud ar ddiwedd yr wythnos flaenorol, nid oedd y Cabinet wedi cael cyfle hyd yma i ystyried y mater. Fodd bynnag, roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) wedi cwrdd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac Ynni Niwclear Horizon y diwrnod blaenorol ac wedi rhyddhau'r datganiad canlynol –

"Mae'r Bwrdd yn llwyr gefnogol i ddatblygu atomfa niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn a'r buddion economaidd y bydd hyn yn ei gynnig i'r rhanbarth cyfan.

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y perthnasau gwaith agos sydd eisoes wedi eu sefydlu gyda Llywodraethau'r DU a Chymru, y sector preifat a Horizon Nuclear Power, ac yn ogystal ag archwilio'r camau nesaf a'r ffordd orau o fwrw ymlaen.

Hoffai'r Bwrdd nodi'n glir na fydd y penderfyniad i atal gwaith ar y Wylfa Newydd yn cael unrhyw effaith o gwbl ar unrhyw brosiectau ym Margen Dwf Gogledd Cymru. Mae'r prosiectau hynny'n sefyll ar eu traed eu hunain gydag achosion busnes wedi eu cymeradwyo a byddant yn hanfodol i ffyniant economaidd pellach yr ardal.

Byddwn rŵan yn dechrau ar drafodaethau pellach gyda Llywodraethau'r DU a Chymru i edrych ar gymorth ychwanegol a chyfleoedd ariannu yn sgil y penderfyniad hwn."

Caniatawyd cwestiwn atodol a holodd y Cynghorydd Rhys Thomas a fyddai unrhyw gyfle i gael prosiectau ynni adnewyddadwy eraill yng Ngogledd Cymru a fyddai'n fwy manteisiol i Sir Ddinbych pe na bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Ymatebodd yr Arweinydd gan ddweud fod NWEAB yn parhau i gefnogi'r datblygiad ac roedd trafodaethau'n parhau gyda'r rhai a oedd yn ymwneud â chynnydd y prosiect fel y bwriadwyd yn wreiddiol os oedd modd. Os na fyddai modd cyflawni hynny, byddai cyfleoedd i ailedrych ar brosiectau presennol o fewn y Fargen Dwf na fyddai angen cymaint o ffocws ar ynni niwclear ar gyfer y rhanbarth. Roedd hefyd cyfle i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Fargen Dwf, a fyddai, pe bai'n llwyddiannus, yn galluogi prosiectau eraill i amlygu eu hunain.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018.

**Materion yn Codi –** Tudalen 8, Eitem 4 y Cofnodion – Cabinet 30 Hydref 2018 (Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr) – holodd y Cynghorydd Peter Scott ynghylch cynnydd o ran dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio,

ac o ystyried y sibrydion oedd ar led ynglŷn â'r mater, gofynnodd am eglurhad i drigolion Llanelwy. Cadarnhaodd y Cynghorydd Tony Thomas fod y dadansoddiad bron yn gyflawn, nid oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud hyd yma, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno er mwyn cael penderfyniad yn y Gwanwyn. I ymateb i'r sibrydion, cytunodd yr Arweinydd y byddai'n Cyngor yn cadarnhau'r sefyllfa bresennol yn gyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.*

## 5 STRATEGAETH ANABLEDDAU DYSGU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad a oedd yn cynnwys Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018 – 2023 a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyfranogiad y Cyngor yn y Strategaeth honno.

Datblygwyd y Strategaeth ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, chwe chyngor Gogledd Cymru, ac wedi ei chefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yn cynnwys dull rhanbarthol o weithio tuag at wasanaethau anabledd dysgu integredig yng Ngogledd Cymru ac wedi ei llywio gan bobl gydag anableddau dysgu a'u gofalwyr gyda'r nod o gyflawni gwell ansawdd bywyd i'r rhai hynny sydd ag anableddau dysgu. Roedd y Strategaeth yn cynnwys pum maes gwaith ac roedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Roedd y costau darparu wedi eu cefnogi gan werth £1.7m o gyllid Llywodraeth Cymru ac ni ddylai greu unrhyw bwysau ychwanegol yn lleol.

Trafododd y Cabinet y dogfennau gyda'r Aelod Arweiniol a swyddogion a -

- ddarparodd sicrwydd ynghylch materion cydraddoldeb a chael gafael ar wasanaethau
- cadarnhaodd yr heriau a gyflwynwyd wrth ddiwallu anghenion ardaloedd gwledig a oedd wedi eu nodi ac roedd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i'r perwyl hwnnw i liniaru effeithiau negyddol o ran diogelu a hyrwyddo annibyniaeth
- cadarnhaodd y byddai dull rhanbarthol yn cryfhau gwasanaethau ac nid eu gwanhau
- eglurodd ddarpariaeth cyllid grant a oedd yn parhau am flynyddoedd i ddod a'r angen i gyd-fynd â'r galwadau cynyddol ar wasanaethau.

Wrth ymateb i gwestiynau gan gynghorwyr nad oedd yn Aelodau o'r Cabinet, gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- gadarnhau y gellid darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- adrodd ar y sefyllfa o safbwynt o ran ymateb cwmnïau bysiau o safbwynt dangos chwarae teg i bobl gydag anableddau dysgu drwy hunan-eiriolaeth
- nodi fod diogelu a'r oes ddigidol yn fater ehangach ac roedd protocolau pendant ynghylch camdriniaeth ar y we, a oedd yn fater arall
- cadarnhau y gellid trefnu hyfforddiant perthnasol ar gyfer cynghorwyr
- egluro fod rhaid defnyddio cyllid rhanbarthol at ddibenion penodol ac roedd un o'r pum maes gwaith yn y Strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu

- nodi fod y Strategaeth yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd a byddai fersiwn Gymraeg ar gael mor fuan â phosibl.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo cyfranogiad Cyngor Sir Ddinbych yn y Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol.*

## 6 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2019/20

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnydd rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw ar gyfer 2019/20 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.
Soniodd y Cynghorydd Thompson-Hill wrth yr aelodau am ffigurau’r gyllideb a rhagdybiaethau lefel yr incwm a oedd wedi’u cyfrifo gan ystyried Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai mewn perthynas â thai cymdeithasol a’i dull ar gyfer cynyddu rhenti.  Y cynnydd ar gyfer 2019/20 oedd 2.4% a byddai’n gadael 40% o gartrefi ar lefelau rhent targed.  Daeth y polisi presennol i ben yn 2018/19 ac roedd y cynnydd ar gyfer 2019/20 yn bolisi dros dro am flwyddyn ac mae disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar y polisi rhent yn y dyfodol ym mis Ebrill 2019. Dangosodd yr adolygiad blynyddol o’r Cynllun Busnes Stoc Dai ei fod yn parhau’n gadarn ac yn hyfyw’n ariannol ac roedd digon o adnoddau i gefnogi rheolaeth a goruchwyliaeth o’r gwasanaeth tai a’r angen am fuddsoddiad yn y stoc.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- eglurwyd y gofyniad i gynnwys darpariaeth dyledion drwg ynghyd ag effaith Credyd Cynhwysol a dull rhagweithiol y Cyngor i’r perwyl hwnnw a darparu cyngor ariannol a chymorth i denantiaid – nodwyd fod cyfraddau casglu rhent yn parhau’n uchel ac roedd yr ôl-ddyledion ymhlith y rhai isaf yng Nghymru.
- o safbwynt colli incwm ar Dai Gwag, cydnabuwyd ei bod wedi cymryd amser i gwblhau gwaith i sicrhau fod eiddo gwag o safon uchel - roedd y bendithion yn cynnwys cyn lleied o amhariad â phosibl i denantiaid yn y dyfodol a chartref o ansawdd uchel gyda llai o gostau atgyweirio yn y dyfodol, rhywbeth roedd tenantiaid yn ei werthfawrogi.
- nodwyd nad oedd yr adroddiad yn ymdrin â garejys gan nad oedd yn destun Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru a byddai’n cael ei adolygu gan y Pennaeth Gwasanaeth dan awdurdod dirprwyedig - yn hanesyddol, roedd rhenti garejys yn dueddol o gael eu cynyddu yn unol â rhenti tai.
  Teimlai’r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y byddai rhinwedd i’r Cabinet osod lefelau rhenti garejys wrth osod lefelau rhent ar gyfer tai.  Roedd yr adolygiad o garejys yn tynnu at ei derfyn, a gofynnodd yr Arweinydd i aelodau gael eu hysbysu ar ôl i’r adolygiad gael ei gwblhau, a fyddai hefyd yn amser priodol i ystyried y pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Hilditch-Roberts
- derbyniwyd y gallai Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych fod yn fwy cynrychioliadol, fodd bynnag roedd perthynas dda’n bodoli gyda thenantiaid ac roedd cynllun cyswllt manwl i gael adborth a llywio cynlluniau yn y dyfodol
- gwerthfawrogwyd y gallai unrhyw gynnydd rhent gael effaith ar allu rhai tenantiaid i gyflawni eu hymrwymiadau ariannol a byddai swyddogion yn parhau i helpu cwsmeriaid i reoli eu cyllid yn effeithiol a chynyddu eu hincwm.

Cydnabuwyd yr angen i sicrhau fforddiadwyedd a gwerth am arian, a dangosodd adborth cychwynnol gan yr arolwg STAR diweddaraf fod 89% o denantiaid yn ystyried fod eu cartref yn cynnig gwerth am arian.

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019/20 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad); a*

*(b)* *cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £89.77 i'w weithredu o ddydd Llun 1 Ebrill 2019.*

**7 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2019/20 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus a oedd hefyd yn cynnwys dyraniadau dros dro cyn cael cadarnhad o'r cyllid grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol o £1.680m. Mae'r arian grant ychwanegol wedi ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru ers hynny ac felly gallai'r dyraniadau dros dro gael eu cadarnhau hefyd. Cyfeiriwyd at waith y GBS wrth adolygu'r cynigion am ddyraniadau a darparwyd crynodeb o'u hargymhellion ac fe ymhelaethwyd arnynt ymhellach yn y cyfarfod. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, cadarnhawyd nad oedd rhan o'r dyraniad bloc ar gyfer priffyrdd yn cynnwys elfen o atgyweirio troedffyrdd a fyddai'n cael ei flaenoriaethu fel oedd yn briodol gan yr adran honno.

***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yn Nghynllun Cyfalaf 2019/20 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.*

Ar y pwynt hwn (11.30 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

**8 CYLLIDEB 2019/20 – CYNIGION TERFYNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2019/20 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2019/20, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Darparodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'r argymhelliad i'r cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2019/20. Roedd y setliad terfynol wedi arwain at sefyllfa ariannu niwtral, ond er mwyn i'r sefyllfa ariannu aros yn niwtral o safbwynt y pwysau ariannu isafswm, byddai angen i'r setliad fod yn nes at +5%. Roedd y pwysau'n cynnwys tâl, pensiwn, Cyflog Byw Cenedlaethol,

chwyddiant pris/ ynni, ardoll y gwasanaeth tân, lwfansau ar gyfer cynnydd yn y cynllun gostyngiad Treth y Cyngor, gostyngiad yng Ngrant Gweinyddu'r Adran Gwaith a Phensiynau ac arian wrth gefn canolog. Mae pwysau ar y gyllideb mewn meysydd blaenoriaeth hefyd wedi ei gydnabod gan gynnwys gofal cymdeithasol, ysgolion a chludiant. Mae cynnydd o 6.35% mewn Treth y Cyngor wedi ei gynnig er mwyn codi £797,000 yn ychwanegol o'i gymharu â'r cynnydd mewn Treth y Cyngor yn 2018/19, i'w ddefnyddio fel rhan o'r pecyn cyffredinol i fynd i'r afael â'r diffyg ar y gyllideb – roedd hyn yn cynnwys £2 filiwn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Diolchodd y Prif Weithredwr i aelodau'r Cabinet a swyddogion am roi pecyn o arbedion at ei gilydd a oedd yn diogelu gwasanaethau rheng flaen am gyhyd â phosibl a hefyd yn cydnabod pwysau o ran galw. Roedd y pecyn wedi ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd a datblygu modelau darparu amgen. Cydnabuwyd fod penderfyniadau anodd wedi eu gwneud, gan gynnwys o ran lefel Treth y Cyngor, a chydnabuwyd y byddai'r blynyddoedd i ddod yr un mor heriol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd aelodau'r Cabinet y cynigion yn fanwl, ynghyd â swyddogion, ac ymatebwyd i gwestiynau amrywiol a oedd yn ymwneud â meysydd penodol o fewn eu portffolios gan gynnwys ystod eang o wahanol faterion.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- y rhesymeg tu ôl i gyfran y dyraniad cyllid ychwanegol arfaethedig i Wasanaethau Cymorth Cymunedol (CCC) a thrafodwyd Addysg a Gwasanaethau Plant (AGP) o ystyried y gwahaniaethiad yn y cyllidebau sail.
  Nodwyd fod cynigion cyllid wedi eu trafod yn seiliedig ar amcanestyniadau galw ar gyfer y gwasanaethau unigol er mwyn mynd i'r afael yn briodol â materion uniongyrchol ym mhob maes gwasanaeth. Roedd y strategaeth ar gyfer ymdrin â CCC hefyd yn cynnwys defnydd o gronfa wrth gefn benodol i reoli'r pwysau ac roedd argaeledd tebygol cymorth grant ychwanegol ar gyfer 2019/20 wedi ei ystyried hefyd. Roedd CCC ac AGP yn wasanaethau statudol ond, er fod y mwyafrif o wasanaethau i oedolion yn gallu cael eu darparu o fewn y sir, roedd yn rhaid diwallu anghenion rhai plant y tu allan i'r sir mewn darpariaeth arbenigol am gost sylweddol. Roedd £750,000 ychwanegol wedi ei neilltuo i CCC yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac roedd £1.5 miliwn yn ychwanegol wedi ei gynnig ar gyfer 2019/20 – gobeithiwyd fod y dull o godi'r gyllideb sail yn mynd i'r afael â'r mater yn y tymor hir.
- mae'r cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion drwy ariannu tâl a chwyddiant cysylltiedig ac unrhyw newid mewn perthynas â nifer y disgyblion.
  Gofynnwyd i ysgolion nodi arbedion gwerth 2% ac er bod hynny'n anodd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan benaethiaid drwy'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion ac roedd hyder y byddai modd cyflawni arbedion. Mater i ysgolion unigol fyddai asesu effaith yr arbedion a'u gweithredu, a fyddai'n wahanol ar gyfer pob ysgol
- o safbwynt yr arbediad arfaethedig o £23,000 yn ymwneud â chostau rhedeg Neuadd y Dref Dinbych, eglurwyd fod yr adeilad wedi ei ystyried i'w waredu cyn oedd arian dros ben i ofynion y Cyngor.
  O ystyried ei fod yn ased pwysig i Sir Ddinbych a bod Cyngor Tref Dinbych yn gweithredu oddi yno, cysylltwyd â'r Cyngor Tref a gwnaethant gadarnhau y byddai diddordeb ganddynt mewn cymryd y rhydd-ddaliad yn ddarostyngedig i'w

fforddiadwyedd ac roedd ymchwiliadau yn parhau ar hyn o bryd i'r perwyl hwnnw. Fel mesur dros dro roedd y Cyngor Tref wedi cytuno i gyfrannu ar y costau cynnal ar sail pro rata yn ddibynnol ar drafodaeth. Ar y sail hwnnw, roedd modd cyflawni'r cynnig i arbed £23,000 yn 2019/20 ac nid oedd yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor Tref i gymryd y rhydd-ddaliad. Pe na bai'r Cyngor Tref yn cymryd y rhydd-ddaliad, yna byddai'r Cyngor yn ystyried dewisiadau eraill ar gyfer yr adeilad. Mynegodd y Cynghorydd Glenn Swingler bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli ased cymunedol pwysig i arbed £23,000, yn arbennig pan roedd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn cyfleusterau tebyg mewn rhan arall o'r sir. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at drosglwyddo Neuadd y Dref Llangollen i Gyngor Tref Llangollen dan amgylchiadau tebyg a'r buddsoddiad yn llyfrgell a chanolfan hamdden Dinbych

- mynegwyd pryderon ynghylch ansicrwydd o ran argaeledd a swm y cyllid grant yn y dyfodol a oedd yn creu anawsterau ar gyfer cynllunio ariannol a gosod y gyllideb yn y dyfodol.
  O safbwynt y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, nid oedd disgwyl gostyngiadau o'r lefelau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac roedd disgwyl arian grant cyfalaf ychwanegol ar gyfer cynnal priffyrdd a hefyd grantiau refeniw ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, y consensws gan lywodraeth leol oedd y byddai'n fwy o gymorth i gynllunio ariannol pe bai mwy o gyllid grant ar gael yn barhaol heb ei neilltuo er mwyn galluogi gwariant i gael ei bennu'n lleol
- Nododd y Cynghorydd Meirick Davies fod Ardoll lawn y Gwasanaeth Tân (£237k) wedi ei nodi fel pwysau ac nid oedd yr arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad ariannol tuag at yr ardoll wedi cael ei ystyried.
  Eglurwyd, er bod yr elfen o gyllid ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân wedi ei gynnwys yn lefel gyffredinol y setliad, nid oedd unrhyw beth penodol yn cael ei basportio er mwyn cyllido cynnydd yn y praesept tân ar y raddfa hon, o ganlyniad roedd yn rhaid i gost ychwanegol y praesept syrthio fel pwysau i gael ei ariannu'n lleol. Amlygwyd fod elfen lefel Tân y setliad wedi cynyddu o ganran llawer yn is na'r swm y newidiodd yr ardoll
- o safbwynt y gostyngiad arfaethedig o £200,000 yn y gyllideb refeniw ar gyfer Strydwedd, y bwriad oedd lliniaru'r effaith drwy ddisodli rhywfaint o'r elfen honno gyda dyraniad cyfalaf yn y gyllideb i gefnogi gwaith cynnal priffyrdd a fyddai hefyd yn cynnig rhagor o sicrwydd i'r gwasanaeth ac roedd yn aros am gadarnhad ar y posibilrwydd o gyllid grant ychwanegol ar gyfer priffyrdd.
- cytunodd y Pennaeth Cyllid/ Swyddog A. 151 i ddarparu ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies ynghylch Treth y Cyngor ar eiddo gwag a'r Cynghorydd Gwyneth Kensler ynghylch y cynnydd canrannol mewn costau ynni gwahanol.

Nododd y Cabinet y setliad heriol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a'r pwysau acíwt sy'n wynebu'r awdurdod. Derbyniwyd y byddai angen cynnydd uwch mewn Treth y Cyngor i ddarparu cyllid ar gyfer yr holl bwysau a nodwyd ac yn parhau gyda lefel effeithiol a rhesymol o wasanaeth i drigolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2019/20;*

(b) *cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, sy'n cyd-fynd â'r cynigion a gyflwynwyd yn y gweithdy cyllideb i'r aelodau a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2019, ac felly'n eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2019/20;*

(c) *cymeradwyo'r arbedion sy'n dod i gyfanswm o £223,000 wedi'u rhestru yn Atodiad 2 fel rhan o'r pecyn cyllideb;*

(d) *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o 6.35% yn Nhreth y Cyngor, sy'n cydnabod pwysau cynyddol amrywiol, gan gynnwys cynnydd o ran costau ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ac yn cefnogi'r dyraniad o £2.0 filiwn o gyllid ychwanegol ar draws y ddau wasanaeth, a*

(e) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418 miliwn (£189.252m yn 2017/18)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £0.756 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £4.6 miliwm a gytunwyd arnynt gan gynnwys y rhai hynny a oedd eisoes wedi eu cyflawni gyda'r dybiaeth y byddai pob arbediad effeithlonrwydd/ arbediad yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet lle bo angen
- amlygwyd risgiau ac amrywiadau cyfredol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Ymatebodd aelodau'r Cabinet i nifer o gwestiynau a godwyd, gan ymhelaethu ar y rhesymeg y tu ôl i'r gorwariant yn y gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata a'r gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd. O safbwynt cludiant i'r ysgol, roedd y mater o ran a fyddai'n well gosod y gyllideb o fewn Priffyrdd a'r Amgylchedd neu Addysg a Gwasanaethau Plant wedi ei drafod yn flaenorol er ei fod yn bwysau a gydnabuwyd a oedd angen mynd i'r afael ag o ble bynnag y byddai'n cael ei leoli.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nodwyd y byddai'r eitemau a ganlyn yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mawrth – Rhoi Model Darparu Amgen ar waith ar gyfer gwahanol weithgareddau / swyddogaethau cysylltiedig â hamdden (i gymeradwyo'r achos busnes).

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**11 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12, 14 a 15 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**12 RHOI MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR WAITH AR GYFER GWAHANOL WEITHGAREDDAU / SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN**

Cyflwynodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol ar y cyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Briff Prosiect Model Darparu Amgen, i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r achos busnes llawn ar gyfer y prosiect.

Amlygwyd gwerth a phwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth hamdden y Cyngor a bod buddsoddiad sylweddol wedi bod yn ei gyfleusterau. Eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r prosiect er mwyn cynnal a, gobeithio, gwella'r ddarpariaeth honno o ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod a'r arbedion sylweddol y gellid eu cynhyrchu gan ymagwedd o'r fath. Pwrpas y brîff prosiect oedd ystyried y cwmpas o safbwynt pa weithgareddau / swyddogaethau cysylltiedig â hamdden y dylid eu symud ymlaen i achosion busnes ar hyn o bryd, tra hefyd yn cydnabod y cyfleoedd posibl i ychwanegu swyddogaethau / gweithgareddau yn y dyfodol fel y bo'n briodol. Eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r elfennau o'r ddarpariaeth a gynigiwyd eu cynnwys o fewn cwmpas y brîff prosiect er mwyn adlewyrchu'r busnes hamdden craidd a'r elfennau hynny a oedd yn cynnig eu hunain i ddull mwy masnachol.

Trafododd y Cabinet rinweddau'r brîff prosiect a chwmpas gweithgareddau yn ymwneud â hamdden i'w cynnwys fel rhan o'r cam nesaf. Holodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a fyddai modd defnyddio matrics sgorio i asesu'r elfennau hynny i'w cynnwys i sicrhau rhesymeg glir y tu ôl i'r penderfyniad i gynnwys neu hepgor elfennau penodol ynghyd â chostau manwl. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch lefel y manylion a fyddai'n cael eu cynnwys o fewn yr achos busnes. Canolbwyntiodd y drafodaeth bellach ar elfennau staffio ac adnoddau'r cynnig a rhoddwyd cadarnhad, er fod angen gwaith pellach o safbwynt datblygu'r costau gweithredol a fyddai'n cael eu cynnwys fel rhan o'r achos busnes, gellid cyflenwi arbedion ar unwaith o safbwynt rhyddhad ar drethi busnes ac esemptiadau TAW. O safbwynt yr effaith ar y Gymraeg, rhoddwyd sicrwydd y byddent yn ymdrin â'r mater fel rhan o unrhyw drefniadau llywodraethu yn y dyfodol a byddai ymlyniad at bolisi'r Cyngor yn cael ei gynnwys yn nhelerau ac amodau'r cwmni darparu amgen newydd. Rhoddwyd sicrwydd pellach hefyd o safbwynt sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn parhau'n fforddiadwy i drigolion o ystyried y ffocws ar ddull mwy masnachol. O safbwynt yr amserlenni, y bwriad oedd cynnig gwybodaeth ar yr

achos busnes i Frîff y Cabinet ym mis Chwefror, wedi ei ddilyn gan Weithdy Aelodau ym mis Mawrth, rydym yn aros am benderfyniad ar yr achos busnes sy'n cael ei ystyried gan y Cabinet ar ôl y Gweithdy Aelodau gyda phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor ym mis Ebrill.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo'r Brîff Prosiect yn amgaeedig i'r adroddiad er mwyn gallu symud Achos Busnes llawn y Prosiect ymlaen, a*

*(b) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Lesiant i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 14.15 pm.